Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



# Polisi ar gyfer Rheoli Aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru

Ebrill 2016

Preswyliad Naid Ymlaen, NEW Dance ym Mharc Gwledig Loggerheads
(llun: Michael Jenkins)

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

YN GADARN O BLAID • POBL ANABL

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Polisi ar gyfer Rheoli Aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru

## 1. Cyflwyniad

1.1 Aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru (‘aelodau’) yw'r cleientiaid hynny sy'n cael grantiau rheolaidd, a ddyfernir yn flynyddol, tuag at eu gweithgareddau craidd. Mae buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru yn aelodau o’r portffolio yn un o'r prif ffyrdd rydym yn anelu at sicrhau portffolio o sefydliadau sy’n fywiog yn artistig, gwydn yn ariannol a chyda lefel o fuddsoddiad sy’n gynaliadwy o gofio’r hinsawdd economaidd gyfredol. Mae’r portffolio o fudd inni wrth ddiwallu’r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol ac y cytunir arnynt â Llywodraeth Cymru.

1.2 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi'r sefydliadau celfyddydol mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac i rai sefydliadau, nid arian rheolaidd yw'r ffordd fwyaf priodol. Er enghraifft, mae ein harian Loteri yn rhoi arian ar gyfer prosiectau ar sail fwy hyblyg, ac nid yw'n cynnwys y gofynion ffurfiol parhaus sy'n gysylltiedig ag arian Portffolio Celfyddydol Cymru.

1.3 Er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol, a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae angen inni ganolbwyntio ein hadnoddau ar y cleientiaid hynny y mae eu gwaith yn cyflawni'r blaenoriaethau hynny orau. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflawni hynny.

## 2. Buddsoddi yn Aelodau o’r Portffolio

2.1 Mae portffolio deinamig ac effeithiol yn hanfodol inni gyflawni ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau strategol. O ganlyniad, o bryd i'w gilydd, byddwn mewn sefyllfa i greu, neu groesawu, aelodau newydd.

2.2 Mae'r cyfle inni gynnig arian rheolaidd i sefydliadau nad ydynt wedi cael arian rheolaidd gennym yn y gorffennol yn dibynnu ar faint o arian a roddir gan y Llywodraeth ar gyfer y celfyddydau, a pha mor dda y mae ein sefydliadau cyfredol sy'n cael arian rheolaidd yn perfformio. Gall y sefyllfa hon gael ei sbarduno gan amrywiaeth o amgylchiadau, ond digwydd fwy na thebyg yn sgil un o'r canlynol:

- newid i'n blaenoriaethau strategol, naill ai drwy gynnwys menter newydd neu newid mewn pwyslais, sy'n golygu na all aelodau cyfredol ddarparu'r hyn rydym yn chwilio amdano

- arian ychwanegol ar gael i ddatblygu blaenoriaethau strategol newydd neu gyfredol sydd angen buddsoddi mewn aelodau newydd

- mae aelodau, am ba reswm bynnag, yn gadael y portffolio, gan adael bwlch o ran cyflawni ein blaenoriaethau strategol

2.3 Os yw Cyngor y Celfyddydau am ystyried ariannu aelodau newydd i gyflawni blaenoriaethau strategol, byddai'n gwneud hyn wedyn ar sail broses a ddiffinnir yn glir, ac a gyhoeddir. Gallai'r broses ymwneud ag un neu ddau sefydliad gan ddibynnu ar y sefyllfa. Fel arfer digwydd hyn ar ffurf Adolygiad Buddsoddi a gynaliasom i benderfynu ar Bortffolio 2016/17

2.4 Yn ôl disgresiwn y Cyngor y bydd unrhyw wahoddiad am ystyriaeth ar gyfer statws Portffolio Celfyddydol Cymru. Bydd y Cyngor hefyd yn penderfynu ar y sefydliadau a fydd yn cael eu hariannu fel aelodau. Yn y gorffennol ychwanegid aelodau fel arfer gan broses Adolygiad Buddsoddi a chynhaliwyd y diwethaf i benderfynu ar Bortffolio 2016/17.

## 3. Beth fydd yn llywio ein penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol?

3.1 Bydd ystod o ffactorau yn llywio ein penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Llywir y ffactorau hyn gan ein dogfennau strategol allweddol a gyhoeddir ar ein gwefan a chânt eu diweddaru o bryd i'w gilydd yn rhan o'n hadolygiadau rheolaidd o'n blaenoriaethau.

3.2 Mae ein Cynllun Corfforaethol yn rhoi'r cyd-destun polisi ar gyfer ein penderfyniadau ariannu. Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r dogfennau hyn, yn ogystal â'n strategaethau celfyddydol eraill. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio ein huchelgais yn y tymor hwy.

3.3 Mae ein prosesau parhaus o fonitro, asesu ac adolygu yn edrych ar berfformiad y sefydliadau. Gwnawn hyn mewn sawl ffordd - mynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd byrddau, edrych ar eich hunanasesiad eich hun, astudio data ariannol a sefydliadol, a thrwy ein prosesau monitro arferol (gan gynnwys monitro ansawdd) yn ystod y flwyddyn.

3.4 Cynyrchasom hefyd Fframwaith Ansawdd i'r Celfyddydau yng Nghymru ac ***Ymdrechu i Ragori*** yw enw'r fersiwn ddiweddaraf. Esbonia'r fframwaith hwn sut y barnwn lwyddiant y sefydliadau a ariannwn. Darpara restr wirio bwysig o'r prif feini prawf sy'n porthi ein penderfyniadau ariannu.

3.5 Y maes olaf i'w ystyried yw **datblygu'r portffolio -** yr amrywiaeth a'r math o sefydliadau y dylem fod yn eu cefnogi i godi safonau a gwella hygyrchedd at y

celfyddydau. Credwn mai'r ffordd orau i gyflawni'r uchelgais hwn yw drwy ddisgwyl i'r aelodau o'n Portffolio fod yn esiamplau yn eu meysydd. Byddai ansawdd eu gwaith, eu trefniant a'u heffaith - yn unigol ac yn dorfol - gystal fel y byddai eraill yn chwenychu cyrraedd yr un safon o gyflawniad.

3.6 Yn ein barn, bydd portffolio 'iach' o sefydliadau yn cynnig:

- amrywiaeth cyfoethog a diddorol o gelfyddydau - o bryd i'w gilydd, byddwn yn rhoi pwyslais arbennig ar agweddau ar y celfyddydau yr ydym am eu datblygu'n flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyn gael ei ategu gan amrywiaeth o arfer artistig, yn arbenigol a chyffredinol

- cyfleoedd proffesiynol am gyflogaeth yn y celfyddydau – rydym yn croesawu, ac yn cymeradwyo, y gwaith pwysig a wneir gan grwpiau celfyddydau gwirfoddol ac amatur. Fodd bynnag, rydym hefyd yn awyddus i weld proffesiynau'r celfyddydau yn datblygu ac yn tyfu

- maint a math - rydym am gefnogi cymysgedd bywiog a diddorol o ran maint a math o sefydliadau: cwmnïau mawrion ag iddynt enw da yn rhyngwladol, a'r rhai sy'n gweithio'n lleol mewn cymuned benodol; cwmnïau a leolir mewn adeiladau, neu'r rhai sy'n bodoli i fynd ar daith yn bennaf; darparwyr sefydledig rhaglenni o safon a'r rhai sy'n dod i'r amlwg ac sy'n arloesol sy'n gweithio mewn ffyrdd newydd a llai cyfarwydd

- potensial strategol – disgwyliwn i bob sefydliad sy'n cael arian yn y dyfodol allu dangos eu bod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn perfformio'n dda. Dyna a ddisgwyliwn megis lleiafswm. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai sefydliad sy'n tangyflawni ofyn am gymorth ar sail ei berthnasedd artistig, daearyddol neu gymunedol unigryw. Dim ond os oes tystiolaeth glir a diamwys bod modd gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol y byddai sefydliadau o'r fath yn cael cymorth

- tystiolaeth o bartneriaeth - portffolio iach o sefydliadau yw un sy'n gallu denu cymorth ariannol oddi wrth ystod o randdeiliaid eraill, gan leihau'r ddibyniaeth ar arian Cyngor y Celfyddydau

- amrywiaeth - mae ein portffolio yn adlewyrchu amrywiaeth y Gymru gyfoes. Mae ein hanes a'n treftadaeth ddwyieithog unigryw yn rhoi inni dirwedd ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol. Mae'n rhaid i'n penderfyniadau buddsoddi adlewyrchu'r angen i gyrraedd cynifer o gymunedau â phosibl ledled Cymru

- dosbarthiad daearyddol – rydym am gefnogi rhwydwaith o aelodau o'r Portffolio ledled Cymru

## 4. Rheoli'r buddsoddiad parhaus

4.1 Ochr yn ochr ag arian rheolaidd, daw ystod o ofynion a chyfrifoldebau a all fod yn feichus weithiau. Dyma un rheswm nad arian rheolaidd yw'r dull mwyaf priodol i rai sefydliadau celfyddydol. Ymhlith y gofynion ffurfiol mae angen rhoi gwybodaeth monitro i Gyngor y Celfyddydau, megis cynlluniau busnes a dogfennau Bwrdd. Un o'r gofynion pwysig eraill yw'r angen i gael systemau ar waith i gofnodi ystadegau a gesglir gan Gyngor y Celfyddydau (er enghraifft, nifer y bobl yn y gynulleidfa).

4.2 Pan fydd sefydliad wedi cael ei dderbyn yn aelod o'r Portffolio, bydd yn cael swyddog arweiniol a fydd yn brif gyswllt i'r cleient. Mae'n bosibl y bydd y sefydliad yn cysylltu â nifer o swyddogion Cyngor y Celfyddydau; gallai'r swyddogion hyn gynnwys Rheolwyr Portffolio neu aelodau o'r Tîm Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu.

4.3 Y brif ddogfen sy'n rheoli'r berthynas rhwng Cyngor y Celfyddydau a phob un o aelodau o'i Bortffolio yw'r Cytundeb Ariannu blynyddol. Mae hwn yn gytundeb partneriaeth sydd fel arfer ar waith am flwyddyn er mewn rhai achosion gallai fod am gyfnod hwy. Penna'r Cytundeb Ariannu dargedau a disgrifia'r berthynas rhwng y ddau barti ac mae'n cyd-fynd â Llawlyfr manylach i Bortffolio Celfyddydol Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ein disgwyliadau parthed pob aelod ac adran sy'n benodol i'ch sector.

4.4 Rydym yn adolygu perfformiad pob aelod o'r Portffolio bob blwyddyn drwy ein proses Adolygiad Blynyddol. Ystyrir eich perfformiad gan yr adolygiad blynyddol yn ôl amodau eich Cytundeb Ariannu.

4.5 Bob blwyddyn, yn rhan o'r Cytundeb Ariannu, mae'n rhaid i bob aelod lenwi dau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru a ddefnyddir at ddibenion monitro, i ddatblygu polisi a'n helpu i ddadlau o blaid ariannu'r celfyddydau gan y Llywodraeth.

4.6 O bryd i'w gilydd byddwn yn gwerthuso'n drylwyr aelod a bydd y gwerthusiad hwn, lle y bo'n briodol, yn cwmpasu pob agwedd ar waith y sefydliad, y ffordd y cyflawnir ei weledigaeth artistig, ei lywodraethu, ei reoli a'i sefyllfa ariannol. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal adolygiad sector, a fydd yn cynnwys edrych ar un sector penodol megis celfyddyd benodol. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'i gynrychiolwyr megis ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol.

## 5. Tynnu Arian

5.1 O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol inni roi'r gorau i ariannu un neu ragor o aelodau o'n Portffolio. Gallai'r angen i dynnu arian gael ei sbarduno gan ystod o amgylchiadau, ond mae'n fwy tebygol o ddigwydd oherwydd un o'r canlynol:

i Mae gennym bryderon am safon berfformio o ran un neu ragor o'r canlynol:

- Gweithgarwch artistig
- Llywodraethu a Gweinyddiaeth
- Cyllid a Chyllidebu

Dan yr amgylchiadau hyn fel arfer, y cam olaf yn ein proses barhaus o fonitro ac adolygu sefydliad unigol fydd y penderfyniad i dynnu arian.

ii Mae'r sefydliad yn cael ei ariannu i gyflawni gwaith sy'n bodloni ein blaenoriaethau ond mae wedi newid natur ei waith fel ei fod yn cyflawni gwaith na fyddai'n cael ei ystyried fel blaenoriaeth.

iii Ni all y sefydliad gyflawni ei raglen o weithgareddau y cytunir arni fel y nodir yn ei Gytundeb Ariannu mewn ffordd effeithiol ar y lefelau ariannu cyfredol.

iv Mae newidiadau yn ein strategaeth neu ein blaenoriaethau strategol yn mynnu bod y canlynol yn angenrheidiol: tynnu arian, gostwng lefel yr arian a/neu ei ailddyrannu. Bydd penderfyniadau o'r fath fel arfer ar gam olaf adolygiad strategol.

v Os profir bod twyll neu gamymddwyn difrifol wedi digwydd.

vi Lle mae'r sefydliad wedi penderfynu rhoi'r gorau i fasnachu, neu mewn gweinyddiaeth neu ddiddymiad;

vii Mae ffactorau allanol yn mynnu bod rhaid inni dynnu arian. Mae'n bosibl y bydd y penderfyniad i dynnu arian oherwydd ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth, fel gostyngiad, yn lefel yr arian sydd ar gael neu gyfyngiad ar yr arian hwnnw.

Bydd y camau gweithredu i ddod i'r penderfyniad i dynnu arian yn wahanol ym mhob senario.

5.2 Rydym yn ymrwymedig i weithio gydag aelodau o'n Portffolio i reoli'r broses o dynnu arian. Fel arfer, byddwn yn rhoi rhybudd 12 mis o'n bwriad i dynnu arian. Gallai'r cyfnod fod yn hwy neu'n fyrrach, gan ystyried natur y penderfyniad am dynnu arian.